Gweithgaredd prosesu Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) i gefnogi dinasyddion Wcráin sy'n dod i'r DU

Er mwyn darparu cymorth i ddinasyddion Wcráin sy'n ffoi rhag y gwrthdaro yn Wcráin, bydd Llywodraeth Cymru (LlC) a phartneriaid yn y sector cyhoeddus yn prosesu data adnabyddadwy personol y bobl hynny a'r rhai sy'n eu noddi i ddod i'r DU.

Bydd y data'n cael ei gasglu o sawl ffynhonnell, gan gynnwys adrannau Llywodraeth y DU, ac yn uniongyrchol gan unigolion.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer y data personol y mae'n ei gasglu, ac unrhyw ddata personol sy'n cael ei rannu â nhw gan adrannau Llywodraeth y DU.

Bydd cyflawni'r Dibenion yn gofyn am brosesu Data Personol ar ran Llywodraeth Cymru. Iechyd a Gofal Digidol Cymru fydd y Prosesydd Data. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y prosesu a ganiateir i'w wneud wrth gyflawni'r Dibenion.

Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig pellach gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phrosesu ar ran Llywodraeth Cymru.

Bydd unrhyw gyfarwyddiadau pellach o'r fath yn cael eu hymgorffori yn y tabl:

Disgrifiad	**Manylion**
Sail gyfreithiol ar gyfer Prosesu	Erthygl 6 (1) (e) o GDPR y DU – Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth ymarfer awdurdod swyddogol a roddir i'r rheolwr; Mae Rhan 2, Adran 8 (d) y Ddeddf Diogelu Data 2018 — prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol y rheolwr gan gynnwys prosesu data personol sy'n angenrheidiol ar gyfer arfer un o swyddogaethau'r Goron, Gweinidog y Goron neu adran y llywodraeth. Os yw'r prosesu'n cynnwys categorïau arbennig o ddata, y sail gyfreithlon yw Erthygl 9 (2) (g) o GDPR y DU — mae'r prosesu'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd. Yr amod lles y cyhoedd sylweddol cyfatebol yw Atodlen 1, Rhan 2,

	Paragraff 18 y Ddeddf Diogelu Data 2018 — mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl. Os yw prosesu'n cynnwys prosesu data personol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu dibynnu ar Atodlen 1, Rhan 2, Paragraff 18 y Ddeddf Diogelu Data 2018 — Diogelu plant ac unigolion sydd mewn perygl.
Pwnc y Prosesu	Bydd data personol am Ddinasyddion Wcráin (a noddwyr/gwesteiwyr) yn cael ei brosesu at ddibenion darparu cefnogaeth a chymorth i'r rhai sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin gan gynnwys dod o hyd i lety addas.
Hyd y Prosesu	Bydd prosesu'r data yn cael ei adolygu bob 6 mis, neu'n gynt os nad oes angen cefnogaeth ar ddinasyddion Wcráin mwyach. Bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu Iechyd a Gofal Digidol Cymru pan (i) fyddant yn penderfynu nad oes angen prosesu'r data a ddatgelwyd mwyach at y diben y cytunwyd arno neu (ii) pan fyddant yn penderfynu bod y gofyniad presennol i gefnogi pobl Wcráin wedi dod i ben.
Lleoliad y Prosesu	Caiff y data ei brosesu o fewn y Deyrnas Unedig ac ni chaiff ei drosglwyddo y tu allan i'r DU oni bai ei fod yn unol ag Amod 2.6.6.
Natur y Prosesu	Bydd data a dderbynnir gan Lywodraeth y DU yn cael ei brosesu a'i storio o fewn y platfform data i'w rannu â Llywodraeth Cymru, y ganolfan gyswllt, yr awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

	Bydd data ychwanegol a diweddar, a gesglir gan y ganolfan gyswllt, hefyd yn cael ei ychwanegu at y system, wedi'i gysylltu â data a ddarperir gan Lywodraeth y DU. Bydd Llywodraeth Cymru, y ganolfan gyswllt, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn cael mynediad at y data sydd ei angen arnynt i ymgymryd â'u rolau yn unig. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod gwiriadau angenrheidiol wedi'u cynnal, nodi llety addas, a darparu cyngor/arweiniad. Yn ogystal â'r data sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion gweithredol, bydd data hefyd yn cael ei brosesu at ddibenion adrodd i Weinidog Cymru a Llywodraeth y DU.
Dibenion y Prosesu	Bydd data personol yn cael ei brosesu at ddibenion darparu cefnogaeth a chymorth i ddinasyddion Wcráin sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin. Bydd data personol yn cael ei brosesu i: • Roi cyngor ac arweiniad i ddinasyddion Wcráin a noddwyr/gwesteiwyr i'w lleoli yng Nghymru • Monitro dyfodiad a symudiad diogel dinasyddion Wcráin yng Nghymru • Nodi a darparu llety diogel ac addas i ddinasyddion Wcráin • Sicrhau bod gan ddinasyddion Wcráin fynediad at wasanaethau hanfodol sydd eu hangen arnynt • Sicrhau bod gwasanaethau'n ymwneud ag iechyd yn cael eu darparu i ddinasyddion Wcráin sy'n cyrraedd Cymru
Math o Ddata personol i'w brosesu	Bydd y data yn cynnwys: I ddinasyddion Wcráin: • Enw • Dyddiad geni

	• Rhyw • Cyfeiriad • Cyfeiriad e-bost • Rhif ffôn • Statws priodasol Manylion unrhyw un sy'n teithio gyda nhw • Dynodwr unigryw • Rhifau pasbort • Rhifau fisa • Manylion am anghenion symudedd ac anghenion llety eraill • Dyraniad Canolfan Groeso • Trefniadau teithio • Cadarnhad o archwiliadau iechyd wedi'u cwblhau I Noddwyr/Gwesteiwyr: • Enw • Cyfeiriad • Dyddiad geni • Rhyw • Manylion cyswllt • Dynodwr unigryw • Manylion unrhyw un sy'n byw gyda'r noddwr/gwesteiwr • Cadarnhad o wiriadau DBS wedi'u cwblhau • Cadarnhad o wiriadau eiddo wedi'i gwblhau Arall: • Cadarnhad o wiriadau talu wedi'u cwblhau Gellir casglu neu rannu meysydd data ychwanegol yn ystod y ddarpariaeth barhaus o gymorth i ddinasyddion Wcráin.
Categorïau Pynciau Data	Bydd gwrthrychau data yn cynnwys: • Dinasyddion Wcráin sy'n ffoi rhag y gwrthdaro yn Wcráin, gan gynnwys oedolion a phlant • Trigolion y DU sy'n noddi/croesawu dinasyddion Wcráin yng Nghymru.

	• Gwybodaeth archwilio sy'n ymwneud â'r rhai sy'n cyrchu'r platfform data
Cynllunio ar gyfer dychwelyd a/neu ddinistrio'r data unwaith y bydd y prosesu wedi'i gwblhau ONI BAI bod gofyniad dan y gyfraith i gadw'r math hwnnw o ddata	Cedwir data tra bod Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen darparu'r wybodaeth hon. Unwaith y penderfynir nad oes ei angen mwyach, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddiadau ar yr hyn y dylid ei wneud ag unrhyw ddata a rennir at y diben hwn a nodir uchod.

O dan Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a roddwch i ni i'ch galluogi ni i'ch cefnogi, yn benodol mae gennych yr hawl:

- i gael gafael ar gopi o'ch data eich hun
- i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau)

Fel y nodwyd nid yw pob hawl yn absoliwt.

Os ydych chi wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru neu Iechyd a Gofal Digidol Cymru o'r blaen o ran eich hawliau ac wedi bod yn anhapus gyda'r ymateb yna gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO),

I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gallwch gysylltu â nhw:

Trwy'r post:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Dros y Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Trwy'r wefan - https://ico.org.uk/

Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch sut y bydd y data a ddarperir yn cael ei brosesu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn:

Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Tŷ Glan yr Afon
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd
CF11 9AD

E-bost: DHCWInformationgovernance@wales.nhs.uk